PWYLLGOR RHANBARTH Y GOGLEDD

Adroddiad Cyntaf: Rheoli Gwastraff yn y Gogledd

Cyflwyniad

1.1 Mae Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd yn un o bedwar pwyllgor rhanbarth y Cynulliad. Estynna'r ardal dros Gonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Ynys Môn, Wrecsam ac ardaloedd hen gynghorau dosbarth Arfon a Dwyfor sydd bellach yn rhan o Wynedd.

1.2 Rôl y pwyllgorau rhanbarth, fel y'i diffiniwyd gan Reol Sefydlog 10.2, yw cynghori'r Cynulliad Cenedlaethol ar faterion sy'n effeithio ar eu rhanbarthau, effaith polisïau'r Cynulliad yn y rhanbarthau hynny a gwaith y cyrff cyhoeddus yno.

1.3 Yn ei gyfarfod ar 4 Gorffennaf 2003 bu'r Pwyllgor yn ystyried materion yn ymwneud â rheoli gwastraff sy'n effeithio ar y rhanbarth. Crynhoir yr hyn a drafodwyd yn yr adroddiad hwn.

Rheoli Gwastraff yn y Gogledd

1.4 Rheoli gwastraff yw un o sialensiau mwyaf Cymru o safbwynt yr amgylchedd, gydag oddeutu 93% o wastraff trefol yn cael ei anfon i'w dirlenwi ac oddeutu 7% yn cael ei ailgylchu a'i gompostio. Erbyn 2003-04 disgwylir i awdurdodau lleol yng Nghymru ailgylchu a chompostio 15% o'u gwastraff trefol, gan gynyddu i 25% ymhen tair blynedd ac i 40% ymhen chwe blynedd. Mae'r Cynulliad wedi darparu adnoddau ychwanegol i awdurdodau lleol er mwyn rheoli gwastraff yn gynaliadwy.

Negeseuon allweddol

1.5 Canolbwynt y cyfarfod oedd y sialensiau sydd ynghlwm wrth ddatblygu dulliau mwy cynaliadwy o reoli gwastraff yn y Gogledd. Dyma oedd prif negeseuon y sesiwn:

- Y dulliau sydd ar gael i reoli gwastraff yn gynaliadwy –mynegwyd pryder yngln â'r cynnydd parhaus mewn gwastraff domestig, hwylustod gwaredu gwastraff (biniau mawr ar olwynion i gasglu sbwriel), a phrinder cyfleusterau ailgylchu a chompostio yn lleol;

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth am wastraff – yr angen i'r ymgynghori â'r cyhoedd fod yn ystyrlon, i'r asesiadau risg i'w cynnal ar yr opsiynau rheoli gwastraff sydd o dan ystyriaeth fod yn llym, ac

ymateb o ddifrif i bryderon trigolion lleol. Mae angen hyrwyddo mwy ar ddulliau rheoli gwastraff yn gynaliadwy er mwyn newid diwylliant, drwy addysgu a thargedu gwybodaeth at bobl ifanc yn arbennig. Nodwyd hefyd bwysigrwydd partneriaethau effeithiol ar bob lefel – ymhlith y sectorau gwirfoddol, cyhoeddus a phreifat.

- Ehangu rheoli gwastraff yn gynaliadwy – yr angen i ddidoli gwastraff domestig yn y cartref, trefnu casgliadau min-ffordd o ddeunydd i'w ailgylchu a chreu mwy o ganolfannau ailgylchu yn lleol er mwyn lleihau'r gwastraff a gludir o gwmpas y rhanbarth.

Cyflwyniadau

1.6 Yn ystod y cyfarfod, derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniadau byr gan y sefydliadau canlynol ar wahanol agweddau ar sut i fynd ati i ateb yr her yma. Ceir copïau o'r cyflwyniadau yn yr Atodiadau.

- Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru – amlinellwyd yr hierarchaeth gwastraff a'r prif waith a wneir gan yr Asiantaeth i annog rheoli mwy o wastraff yn gynaliadwy;

- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – rhai o'r materion ymarferol sy'n gysylltiedig â chyflawni targedau;

- Cylch – enghreifftiau o arferion da yn y rhanbarth;

- Trefnu Cymunedol Cymru (cynghrair o grwpiau lleol amrywiol sy'n gweithio gyda'i gilydd i wneud gwahaniaeth mewn cymunedau) – amlinellwyd rhai o'r pryderon yn y rhanbarth ac awgrymwyd ffordd ymlaen.

Barn cyhoedd y Gogledd

1.7 Roedd y pwyntiau penodol a godwyd gan aelodau o'r cyhoedd fel a ganlyn:

- Soniodd y Cynghorydd Harry Jones am yr angen i ddeall y rhesymau dros y cynnydd mewn gwastraff domestig a sut y gellid gwyrdroi hynny;

- Pwylseisiodd Bob Barton, Cyngor Cymuned Llanarmon-yn-Iâl fod gwastraff yn broblem fawr a bod angen newid diwylliant i'w datrys. Dywedodd mai prin oedd y cyfleusterau i waredu ac ailgylchu gwastraff mewn cymunedau gwledig yn y Gogledd ac awgrymodd y dylai compostio gael ei annog;

- Dywedodd Chris Thomas ei fod wedi dyfeisio peiriant sy'n codi'r morter oddi ar frics fel y gallant gael eu hailddefnyddio. Gallai'r athroniaeth o ailddefnyddio ac ailgylchu gael ei ddefnyddio hefyd gyda gwastraff domestig;

- Dywedodd Janet Williams, Rhwydwaith Amgylchedd y Menywod, ei bod yn pryderu ynghylch natur ddamcaniaethol y data a ddefnyddir i wneud asesiad risg a chwestiynodd sut oedd rheoli ‘gwastraff’ pan na châi ei alw’n hynny mwyach, e.e. ar ôl iddo gael ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu;

- Gwnaeth Louise Halestrap, Canolfan y Dechnoleg Amgen, y sylw bod targedau canolog fel petaent yn gwrthdaro ag asesiadau awdurdodau lleol o’r hyn y mae angen ei wneud. Awgrymodd y gallai’r targedau gael eu cyflawni, fel y gwnaed mewn mannau eraill yn Ewrop, ac mai problem yn gysylltiedig ag adnoddau ydoedd yn hytrach na phroblem rheoli gwastraff;

- Pwysleisiodd Dr Peter White, tocsicolegydd a oedd wedi ymddeol, fod yr her yma yn un fyd-eang a bod angen newid diwylliant drwy drafod ac ymgynghori â’r cyhoedd. Cododd hefyd y potensial o wastraff yn cael ei greu o ganlyniad i gynhyrchu cyhoeddiadau dwyieithog;

- Dywedodd Andrew Sully, TCC a’r Eglwys yng Nghymru, fod yna ddiwylliant o amheuaeth ymhlith pobl tuag at lywodraeth ganol a oedd yn gyfrifol, ym marn llawer, o hyrwyddo’r farchnad uwchlaw cynaliadwyedd;

- Holodd Fiona Trapp, a gynrychiolai fudiad yn y sector preifat, a ymgynghorwyd â gwledydd eraill a wynebai broblemau tebyg. Holodd hefyd ynghylch y trefniadau a oedd yn bod i ymgynghori â’r sector preifat;

- Dywedodd William Hughes, Menter Gymunedol a Chyfarwyddwr Cylch, nad oedd penderfyniadau a wnaed yn lleol yn dryloyw a bod yr ymgynghori â’r cyhoedd yn digwydd yn aml iawn ar ôl i benderfyniadau gael eu gwneud gan weithwyr proffesiynol. Pwysleisiodd yr angen i weithio mewn partneriaeth ac am gorff cydgysylltu nad oedd ganddo unrhyw fuddiant mewn materion cysylltiedig;

- Dywedodd cynrychiolydd cwmni gwastraff yn y sector preifat fod ei gwmni wedi buddsoddi mewn canolfan ailgylchu a nododd na chyfeiriwyd at fusnesau bach a chanolig yn ystod y drafodaeth. Cwestiynodd hefyd y gwahaniaeth rhwng y dreth tirlenwi a’r dreth agregau ac awgrymodd y dylai adeilad newydd y Cynulliad ddefnyddio deunyddiau wedi’u hadfer.

Sylwadau ysgrifenedig

1.8 Cyflwynwyd sylwadau ysgrifenedig ar ôl y cyfarfod ac fe’u hatgynhyrchir yn yr Atodiadau. Dyma’r prif bwyntiau a godwyd:

- A.L.& S.A. Black – pwysant am ehangu ailgylchu a lleihau gwastraff ar y cyd â thirlenwi wedi’i reoli’n dda. Cefnogant gynlluniau compostio cymunedol, casglu o garreg y drws a didoli gwastraff yn y cartref, ond galwant ar i awdurdodau lleol gymryd cyfrifoldeb am annog

cymunedau i weithredu;

- Y Cynghorydd Harry Jones, Cyngor Cymuned Holt – mynegodd bryderon y Cyngor ynghylch y bwriad i ddod â llosgydd i Wrecsam a natur y broses ymgynghori;

- Dr Stan Moore, Yr Adran Wyddoniaeth a'r Amgylchedd Naturiol, Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru - awgryma fabwysiadu agwedd holisitig yn seiliedig ar addysgu, lleihau gwastraff ac adfer deunyddiau;

- Chris Pittaway, Dirprwy Bennaeth a Chydgysylltydd yr Amgylchedd, Ysgol St Christopher's, Wrecsam – hola nifer o gwestiynau am addysg a datblygu cynaliadwy sydd wedi'u hanfon ymlaen i Lywodraeth Cynulliad Cymru;

- G Francis Roberts – holodd gwestiynau am gompostio a'r rheolau newydd ynghylch claddu stoc marw sydd wedi'u hanfon ymlaen i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Awgrymodd hefyd opsiynau mwy cynaliadwy ar gyfer y lluniaeth a gynigir mewn cyfarfodydd o'r pwyllgor rhanbarth; opsiynau a fydd yn cael eu gweithredu;

- Chris Thomas – cafwyd ganddo fwy o fanylion am y peiriant glanhau brics y cyfeiriodd ato yn ystod y cyfarfod a soniodd am ddefnydd mwy effeithlon y gellid ei wneud o hen deiars yn hytrach na'u llosgi;

- Judy Ling Wong – mynegodd bryderon ynghylch ailgylchu yn Llanberis sydd wedi'u hanfon ymlaen i Gyngor Gwynedd.

Camau nesaf

1.9 Cyflwynir copïau o'r adroddiad yma i Gadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad y Cynulliad, Gweinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, ac awdurdodau lleol yn y Gogledd.

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor

Mae copi o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol www.cymru.gov.uk Os hoffech gael copi caled, e-bostiwch NWales.regcomm@wales.gsi.gov.uk neu cysylltwch â Silvia Ricondo drwy ffonio 029 2089 8018.

Atodiadau

Cyflwyniadau (copïau caled yn unig)

Asiantaeth yr Amgylchedd

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cylch

TCC

Sylwadau ysgrifenedig (copïau caled yn unig)

AL & SA Black

Y Cynghorydd Harry Jones

Dr Stan Moore

Chris Pittaway

G Francis Roberts

Chris Thomas

Judy Ling Wong